# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2020

Amser: 09.00 - 12.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6445

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Jayne Bryant AS<br>Andrew RT Davies AS<br>Lynne Neagle AS<br>David Rees AS |
| Tystion: | Sarah Stone, Samariaid Cymru<br>Kate Heneghan, Papyrus<br>Yr Athro Ann John, Prifysgol Abertawe<br>Dr Antonis Kousoulis, Sefydliad Iechyd Meddwl |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Papyrus a Samariaid Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Papyrus a Samariaid Cymru.

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gydag academyddion

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Ann John a Dr Antonis Kousoulis.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Cod Ymarfer ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i roi ateb ysgrifenedig i'r Gweinidog.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol: Trafod tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a'r dull gweithredu ar gyfer yr adroddiad

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Gweinidog a thrafododd ei gasgliadau ar gyfer yr adroddiad drafft. Gan nad oes cyfarfod Pwyllgor

wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf, cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r adroddiad terfynol drwy e-bost.

## 8 Blaenraglen waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer yr hanner tymor nesaf, hyd at wyliau'r Nadolig. Cytunodd y Pwyllgor y byddai ei waith yn parhau i ganolbwyntio ar effaith Covid-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a pharhau i oedi pob busnes arall nad yw'n gysylltiedig â Covid-19. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ddechrau tymor y gwanwyn.